# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 3

DARPARIAETHAU SY'N GYMWYS I BOB CONTRACT MEDDIANNAETH

## PENNOD 8

DELIO

*Olynu*

### 76 Olynydd wrth gefn: aelod o'r teulu

(1) Mae person yn olynydd wrth gefn i ddeiliad y contract os nad yw'n olynydd â blaenoriaeth i ddeiliad y contract ac—

- (a) os yw'n bodloni'r amod aelod o'r teulu,
- (b) os oedd yn meddiannu'r annedd fel ei unig gartref neu ei brif gartref pan fu farw deiliad y contract, ac
- (c) os yw'n bodloni'r amod aelod o'r teulu oherwydd adran 250(1)(c) (aelodau o'r teulu heblaw priod, partner sifil etc.), ei fod hefyd yn bodloni'r amod preswyliad sylfaenol.

(2) Mae person yn bodloni'r amod aelod o'r teulu os yw'n aelod o deulu deiliad y contract.

(3) Mae person yn bodloni'r amod preswyliad sylfaenol os oedd, drwy gydol y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben â marwolaeth deiliad y contract—

- (a) yn meddiannu'r annedd, neu
- (b) yn byw gyda deiliad y contract.

(4) Os oedd deiliad y contract yn olynydd â blaenoriaeth mewn perthynas â'r contract meddiannaeth, mae'r cyfeiriadau at ddeiliad y contract yn is-adrannau (2) a (3)(b) yn cynnwys y person a olynwyd gan ddeiliad y contract.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 76 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 18 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 76 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 76 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 76 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 18 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5